# Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ Llandegla 2025

Mae Cyngor Sir Ddinbych, wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (3), 4, 25, 32, 35, 36, 45, 46, 46A, 47, 49, 51, 52, 53 a 124(1) a Rhan IV, Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ddinbych) 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ac yn unol â Rhan III, Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ Llandegla 2025

## Adran 1 – Rhagarweiniol

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar __/___/202 a gellir ei enwi'n "Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ Llandegla 202

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol ar gyfer dehongli unrhyw Ddeddf Seneddol ac fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, at ddibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno, ac fel pe bai'r Gorchmynion a ddirymwyd gan y Gorchymyn hwn yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd.

3. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi'i osod, amrywio neu'i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy'n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn trechu.

4. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

5. Amrywir Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 (a elwir wedi hyn "y Prif Orchymyn") drwy hyn fel a ganlyn:
   (i) dilëir y cynlluniau a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn o'r Prif Orchymyn ac fe'u disodlir â'r cynlluniau sydd wedi'u hatodi i'r Gorchymyn hwn a'u llofnodi mewn cysylltiad ag ef, ac wedi'u rhestru yn Atodlen 2 i'r

# Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ Llandegla 2025

Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn eu hychwanegu at atodlenni 1 a 2 i'r Prif Orchymyn a'u hymgorffori ynddynt;

Hon yw'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yng "Ngorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ Llandegla 202 a grybwyllwyd eisoes.

**ATODLEN 1**

Dilëir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol o Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021

BE130 a BE131

Hon yw'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yng "Ngorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 3 Llandegla 202 a grybwyllwyd eisoes.

**ATODLEN 2**

Ychwanegir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol a'u hymgorffori yn atodlenni 1 a 2 Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021

BE130a a BE131a

# Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___ Llandegla 2025

Seliwyd y Gorchymyn hwn a'r Atodlenni sydd ynghlwm gyda Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DDINBYCH )**

**ar hyn )**

**Ar y dydd o 202 )**

**yng ngŵydd:- )**